



10 awgrymiad i arbed ynni yn ystod y cyfyngiadau coronafeirws

Mae'r rhan fwyaf ohonom wedi bod yn treulio mwy o amser gartref o ganlyniad i'r mesurau coronafeirws sydd wedi'u rhoi ar waith, ac mae'n ddigon posib y byddwn yn parhau i wneud hyn dros y misoedd i ddod. Yn y cyfnod hwn, gall aelwydydd fod yn wynebu biliau ynni uwch a allai achosi caledi ariannol.

Fodd bynnag, gall newidiadau syml i weithgareddau bob dydd wneud gwahaniaethau enfawr i biliau'r aelwyd. Dyma 10 awgrymiad arbed ynni ar gyfer cyfnod y cyfyngiadau coronafeirws y gall pawb eu defnyddio wrth iddynt aros adref ac achub bywydau.

Gallwch arbed tua £30 y flwyddyn trwy gofio diffodd eich cyfarpar yn hytrach na gadael nhw yn y modd parod.

Osgowch roi bwyd cynnes yn eich rhewgell gan fod hynny'n gwneud iddi weithio'n galetach - gadewch y bwyd i oeri'n gyntaf.

Berwch ddim ond y dŵr sydd ei angen arnoch yn eich tegell. Gall hyn arbed £6 y flwyddyn.

Gallwch arbed £35 y flwyddyn ar drydan ar gyfartaledd trwy sychu dillad ar linell ddillad yn lle defnyddio peiriant sychu.

Bydd treulio munud yn llai yn y cawod bob dydd fel rhan o'ch trefn ymolchi'n arbed hyd at £7 y person oddi ar eich bil ynni cartref bob blwyddyn.

Gall golchi dillad ar 30°C yn lle 40°C arbed tua £9 y flwyddyn.

Peidiwch â gadael eich ffôn symudol i wefru trwy'r nos - dim ond cwpl o oriau sydd ei angen ar gyfer y mwyafrif ohonynt.

Gall defnyddio powlen i olchi llestri yn hytrach na gadael y tap ymlaen arbed hyd at £25 y flwyddyn.

Diffoddwch oleuadau pan nad ydych yn eu defnyddio. Gallai hyn arbed tua £14 y flwyddyn i'ch aelwyd.

Trwy ddefnyddio eich peiriant golchi unwaith yn llai bob wythnos byddwch yn arbed tua £5 y flwyddyn mewn costau ynni.

Ydych chi'n profi caledi ariannol?

Siaradwch â'ch cyflenwr ynni os ydych yn poeni am eich biliau ynni ac i gael gwybod a ydych yn gymwys i dderbyn gwasanaethau blaenoriaeth ychwanegol.

Ffoniwch y Tîm Mwyafu Incwm Cartrefi Clyd a Chynnes ar 0800 138 8218 i ddarganfod a ydych yn hawlio'r holl fudd-daliadau y mae gennych hawl iddynt neu ewch i **citizensadvice.org.uk/cymraeg**.

Mae'r Gwasanaeth Cyngor ar Gartrefi Clyd a Chynnes wedi'i redeg gan yr elusen Gweithredu Ynni Cenedlaethol (NEA). Mae'n rhoi cyngor i bobl sy'n profi anhawster wrth dalu eu biliau ynni a dŵr, naill ai'n uniongyrchol neu drwy atgyfeiriadau gan eraill.
nea.org.uk/advice/wash-advice

Ffynonellau

Y ffynhonnell wybodaeth yw'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni a Which? Ebrill 2020

energysavingtrust.org.uk/home-energy-efficiency/energy-saving-quick-wins

which.co.uk/reviews/cutting-your-energy-bills/article/save-electricitysaving-energy-in-the-kitchen

energysavingtrust.org.uk/blog/sevensteps-saving-energy-home

energysavingtrust.org.uk/blog/energy-saving-tips-when-you-are-stuck-home

Mae'r holl arbedion yn seiliedig ar ffigurau o Brydain Fawr ac nid ydynt yn berthnasol i Ogledd Iwerddon.



Elusen annibynnol yw NEA, rhif cofrestru 290511.
Cwmni cyfyngedig gan warant. Cofrestrwyd yng
Nghymru a Lloegr, rhif 1853927.